CYNNIG AM BARC SGLEFRIO COED DUON - Cwestiynau Cyffredin

O ble mae'r cyllid ar gyfer y parc sglefrio yn dod?	Mae Rhaglen Amgylcheddol SATC (Safon Ansawdd Tai Cymru) yn ariannu'r parc sglefrio
Ble ar Faes y Sioe y bydd y parc sglefrio wedi'i leoli?	Bydd ym mhen maes parcio Maes y Sioe, o fewn yr ardal felen ar y llun isod - byddwn ni'n trafod â grwpiau sy'n defnyddio'r ardal hon cyn penderfynu ar union leoliad.
Pa mor fawr bydd y parc sglefrio a sut olwg fydd arno?	Bydd y maint (ôl traed) yn cael ei bennu gan y dyluniad. Os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen, bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ynghylch y dyluniad. - enghreifftiau yn y llun isod
A fydd y parc sglefrio wedi'i amgylchynu gan ffens?	Mae'r parc sglefrio yn gyfleuster chwarae mynediad agored, nid oes cynlluniau i roi ffens o'i amgylch.
A fydd goleuadau ychwanegol yn cael eu gosod?	Ni fydd unrhyw oleuadau ychwanegol yn cael eu gosod
Beth os bydd mwy o sbwriel/gwastraff?	Bydd biniau ychwanegol yn cael eu gosod o amgylch y parc sglefrio
Beth os bydd mwy o sŵn?	Mae Maes y Sioe yn ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer chwarae a hamdden, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gynnal asesiad risg sŵn ac nid oes ffordd o liniaru unrhyw sŵn gan blant sy'n chwarae yn y parc sglefrio.
Beth am glybiau sydd eisoes yn defnyddio ardal hon o faes y sioe?	Bydd lleoliad arfaethedig y parc sglefrio ym mhen maes parcio Maes y Sioe, ac os bydd y parc sglefrio yn mynd yn ei flaen, byddwn ni'n trafod â defnyddwyr presennol i benderfynu ar y lleoliad gorau gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'w gweithgareddau presennol.
Beth am barcio gormodol neu anghyfreithlon?	Mae Maes y Sioe ar gael i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr: cerddwyr cŵn, clybiau chwaraeon, digwyddiadau mawr achlysurol a defnyddwyr y cyfleusterau chwarae presennol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y bydd defnyddwyr y parc sglefrio yn cynyddu defnydd y maes parcio.
Pryd fydd y penderfyniad yn cael ei wneud?	Bydd yr arolwg yn weithredol am tua phythefnos. Ar ôl hynny, bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu a bydd Bwrdd Prosiect SATC yn penderfynu ar sail yr adborth gan y gymuned.
Beth os bydd y parc sglefrio yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol?	Bydd angen i drigolion rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y rhif ar gyfer achosion nad ydyn nhw'n frys, sef 101.
Oes unrhyw gynlluniau i osod teledu cylch cyfyng ym Maes y Sioe?	Nid oes unrhyw gynlluniau i osod teledu cylch cyfyng yn y lleoliad hwnnw os bydd y parc sglefrio yn mynd yn ei flaen.
Pwy fydd yn gyfrifol am gynnal y parc sglefrio?	Bydd ein Hadran Parciau yn ymgymryd â chynnal y cyfleuster unwaith y bydd wedi'i osod.

Lleoliad bras

Esiamplau